OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2024 No. 388

# Rheoliadau Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2024

## RHAN 6

Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran safon y gofal a'r cymorth sydd i'w darparu ac o ran cael gafael ar wasanaethau iechyd

### Safonau gofal a chymorth – gofynion cyffredinol

**17.**—(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau y darperir gofal a chymorth mewn ffordd sy'n amddiffyn, yn hybu ac yn cynnal diogelwch a llesiant unigolion.

(2) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau y darperir gofal a chymorth i bob unigolyn yn unol â chynllun personol yr unigolyn.

(3) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau y darperir gofal a chymorth mewn ffordd—

(a) sy'n cynnal perthnasoedd personol a phroffesiynol da ag unigolion a staff, a

(b) sy'n annog ac yn cynorthwyo staff i gynnal perthnasoedd personol a phroffesiynol da ag unigolion.

(4) Os nad yw'r darparwr gwasanaeth, o ganlyniad i newid yn anghenion asesedig yr unigolyn, yn gallu diwallu'r anghenion hynny mwyach, hyd yn oed ar ôl gwneud unrhyw addasiadau rhesymol, rhaid i'r darparwr roi hysbysiad ysgrifenedig o hyn i'r unigolyn, rhiant neu ofalwr yr unigolyn, ac unrhyw awdurdod lleoli ar unwaith.

### Parhad gofal

**18.** Rhaid i'r darparwr gwasanaeth roi trefniadau yn eu lle i sicrhau bod unigolion yn cael parhad gofal sy'n rhesymol i ddiwallu eu hanghenion am ofal a chymorth.

### Gwybodaeth

**19.**—(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod gan unigolion a'u rhieni neu eu gofalwyr yr wybodaeth y mae ei hangen arnynt i wneud neu gymryd rhan mewn asesiadau, cynlluniau a phenderfyniadau o ddydd i ddydd am y ffordd y darperir gofal a chymorth iddynt a sut y maent yn cael eu cefnogi i gyflawni eu canlyniadau personol.

(2) Rhaid i'r wybodaeth a ddarperir fod ar gael yn yr iaith, yr arddull, y cyflwyniad a'r fformat priodol, gan roi sylw i—

(a) natur y gwasanaeth fel y'i disgrifir yn y datganiad o ddiben;

(b) lefel dealltwriaeth yr unigolyn a'i allu i gyfathrebu.

(3) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod unigolion a'u rhieni a'u gofalwyr yn cael unrhyw gymorth sy'n angenrheidiol i'w alluogi i ddeall yr wybodaeth a ddarperir.

## Iaith a chyfathrebu

**20.**—(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth gymryd camau rhesymol i ddiwallu anghenion iaith unigolion.

(2) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau y darperir mynediad i unrhyw gymhorthion a chyfarpar sy'n angenrheidiol i unigolyn i hwyluso'r ffordd y mae'r unigolyn yn cyfathrebu ag eraill.

## Parch a sensitifrwydd

**21.**—(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod unigolion yn cael eu trin â pharch a sensitifrwydd.

(2) Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i—

(a) parchu preifatrwydd ac urddas yr unigolyn;

(b) parchu hawliau'r unigolyn i gyfrinachedd;

(c) hybu ymreolaeth ac annibyniaeth yr unigolyn;

(d) rhoi sylw i unrhyw nodweddion gwarchodedig perthnasol (fel y diffinnir "protected characteristics" yn adran 4 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010(**1**)) yr unigolyn.

## Cael gafael ar wasanaethau iechyd a gwasanaethau eraill

**22.**—(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth roi trefniadau yn eu lle er mwyn i unigolion—

(a) gallu cael gafael ar driniaeth, cyngor a gwasanaethau eraill gan unrhyw broffesiynolyn gofal iechyd fel y bo angen, a

(b) cael eu cefnogi i gael gafael ar wasanaethau o'r fath.

Yn y rheoliad hwn, ystyr "proffesiynolyn gofal iechyd" yw person sydd wedi ei gofrestru'n aelod o unrhyw broffesiwn y mae adran 60(2) o Ddeddf Iechyd 1999(**2**) yn gymwys iddo.

(**1**) 2010 p. 15.
(**2**) 1999 p. 8.